# Natur Drws Nesaf

## Rheoli gofod gwyrdd yn eich ardal!

*Canllawiau i Gymru yn unig. Mae gan yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr gyngor gwahanol. Edrychwch ar y dogfennau ar wahân.*

• Ydych chi wedi gweld darn o dir o ddiddordeb yn eich ardal chi?

• Ydych chi'n meddwl y byddai'n lle gwych i dyfu llysiau neu berlysiau ar gyfer y gymuned leol?

• Ydych chi eisiau ei droi'n hafan o flodau gwyllt i wenyn a phryfed?

• Ydych chi'n meddwl bod angen mainc ynddo, a'i dacluso?

Gallwch chi gael rheolaeth! Darllenwch ymlaen…

### Pwy sy'n berchen arno?

1. Gofynnwch i'ch Awdurdod Lleol (cyngor). Edrychwch pwy yw eich Awdurdod Lleol drwy glicio ar y ddolen yma a nodi'ch cod post. https://www.gov.uk/find-local-council Wedyn ewch i'w wefan ac anfon e-bost at ei e-bost ymholiadau neu e-bost cynllunio neu ffoniwch yr awdurdod. Efallai bod ganddo ei gofnodion gweithredoedd ei hun neu yn Archifdy'r Sir.
2. Os nad yw'r Awdurdod Lleol yn gwybod, gofynnwch yn y siopau, y busnesau a'r tai lleol.
3. Mae tua 85% o dir y DU wedi'i gofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir. Bydd yn costio £3 i wneud chwiliad ar-lein. Cliciwch yma (Cymru a Lloegr yn unig): https://www.gov.uk/search-property-information-land-registry Gan na fydd gan eich darn o dir gyfeiriad, bydd angen i chi wneud chwiliad map. Gallwch ddefnyddio'r map ar-lein, ac os ydych chi eisiau ei wirio ddwywaith, gallwch ofyn am "chwiliad map mynegai.

**Chwilio map mynegai:**

Mae hwn yn costio £4 ac mae angen i chi gyflwyno ffurflen "SIM" gyda chymaint o wybodaeth â phosibl, a chyfeirnod map Arolwg Ordnans. Mwy o wybodaeth yma: https://www.gov.uk/government/publications/index-map-application-for-an-official-search-sim

Jiwbilî Platinwm y Frenhines 2022 | Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth / Made possible with Heritage Fund | The Queen's Platinum Jubilee 2022 | Ymddiriedolaethau Natur Cymru / Wildlife Trusts Wales

4. Gallech hefyd wirio cofnodion y Gofrestrfa Tir ar gyfer yr eiddo a’r tir nesaf at y tir y mae gennych ddiddordeb ynddo, oherwydd weithiau gallant ddweud “ynghyd â’r tir cyfagos” neu debyg.

Ond cofiwch! Hyd yn oed os nad yw darn o dir wedi’i gofrestru, nid yw’n golygu nad oes neb yn berchen arno – felly peidiwch â chymryd yn ganiataol y gallwch chi ei gymryd i’w reoli. Gwnewch gymaint o ymchwil ag y gallwch chi.

Mae hyn yn annhebygol ar gyfer prosiect Natur Drws Nesaf, ond efallai y gwelwch chi gyngor sy’n ymwneud ag “Asedau o Werth Cymunedol.” Mae hyn yn berthnasol i Loegr yn unig.

## Ydych chi ddim ond eisiau ei ddefnyddio ac nid ei brynu?

Dyma’r dewis mwyaf tebygol ar gyfer grŵp Natur Drws Nesaf.

Bydd arnoch chi angen caniatâd perchennog y tir. Mewn rhai achosion, bydd lesddeiliad hefyd sy’n rhentu’r tir oddi wrth berchennog y tir: er enghraifft, cwmni maes parcio sy’n rhentu tir gan y cyngor. Cymerodd ddwy flynedd a hanner i grŵp lleol drafod defnyddio llain fach o dir wrth ymyl y maes parcio (enghraifft eithafol!). Bydd angen i chi siarad â pherchennog y tir a’r lesddeiliad.

Efallai y gofynnir i chi am asesiad risg – edrychwch ar ein canllawiau ar wahân. Mae'n debyg y byddant eisiau gweld cynllun ar gyfer yr hyn rydych chi eisiau ei wneud, felly byddwch yn barod. A gallant fod eisiau gwneud “arolwg cyfleustodau” yn gyntaf. Dydych chi ddim eisiau cloddio drwy gebl trydan!

Gwnewch yn siŵr bod contract sy'n nodi pwy sy'n gyfrifol am beth, ac am ba hyd. Does dim rhaid iddo fod yn gymhleth, ond mae'n rhaid iddo fod yn glir. Gallant roi cyfyngiadau ar waith, fel gwahardd defnyddio offer pŵer, neu reolau penodol ynghylch sut gellir defnyddio'r tir.

Gwiriwch gydag adran gynllunio eich Awdurdod Lleol am ganiatâd cynllunio. Bydd tyfu bwyd yn “amaethyddol” ond os oes adeilad ar y tir a’ch bod yn mynd i fod yn gwneud gweithgareddau eraill, efallai y bydd angen newid defnydd.

Bydd angen i chi ystyried yswiriant fel yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. Siaradwch â'ch Awdurdod Lleol, a hefyd edrychwch ar ein dogfen ni am Yswiriant i Grwpiau.

Jiwbilî Platinwm y Frenhines 2022 | Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth | Made possible with Heritage Fund | The Queen's Platinum Jubilee 2022 | Ymddiriedolaethau Natur Cymru Wildlife Trusts Wales

# Natur Drws Nesaf

## Beth yw eich cynllun?

Efallai y byddwch chi'n dod o hyd i lawer o help yn ffolder "Grwpiau" yr adnoddau. Mae angen rhyw fath o gynllun arnoch chi fel eich bod chi'n gwybod pwy sy'n gyfrifol am wneud beth.

Mae angen i chi hefyd wybod sut bydd y prosiect hwn yn cael ei gynnal. Ni allwch blannu rhywbeth a disgwyl iddo ofalu amdano'i hun. Beth sy'n digwydd yn y gaeaf? Beth fydd yn digwydd y flwyddyn nesaf?

A fydd angen cyllideb arnoch chi? Efallai y bydd angen arian arnoch chi ar gyfer yr yswiriant, neu offer, neu gyhoeddusrwydd. Meddyliwch am godi arian – mae gennym ni ddogfennau a chyngor am hynny.

Yn olaf, bydd angen cynllun argyfwng neu restr o bethau i'w gwneud mewn argyfwng. Beth os bydd rhywbeth yn digwydd i'r tir rydych chi'n gyfrifol amdano? Tân, efallai? Neu mae rhywun sy'n hanfodol i'r prosiect yn mynd yn sâl neu'n symud i ffwrdd. Meddyliwch am yr holl bosibiliadau, a beth allwch chi ei wneud i'w hatal rhag digwydd, neu beth fyddech chi'n ei wneud pe byddent yn digwydd.

## Angen gwybod mwy? Dilynwch y dolenni yma

Mae gan yr Ymddiriedolaethau Natur adnoddau ymarferol amrywiol eraill. Gall Sut i greu gardd bywyd gwyllt o'r dechrau un, sut i dyfu darn gwyllt o dir, a garddio cyfeillgar i'r hinsawdd fod yn ddefnyddiol i gyd.

Mae'r llywodraeth yn ceisio ei gwneud yn haws i chi dyfu bwyd yn eich cymuned. Edrychwch yma.

Mae gan y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol wybodaeth ddefnyddiol am arddio cymunedol yma.

Mae gan Social Farms and Gardens wybodaeth ar gyfer ffermydd dinesig a gerddi cymunedol. Maent yn cael eu cyllido i gefnogi prosiectau yng Nghymru, ond mae ganddynt gyngor ar gyfer pob un o'r pedair gwlad.

Mae gan y llywodraeth gyngor ar hawlio tir yn ôl yma.

Jiwbilî Platinwm y Frenhines 2022 | Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth | Made possible with Heritage Fund | The Queen's Platinum Jubilee 2022 | Ymddiriedolaethau Natur Cymru Wildlife Trusts Wales